COMISIWN CYDRADDOLDEB HILIOL CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Paratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, 1993

5 Rhagfyr 1997

UNO PRYDAIN AM GYMDEITHAS GYFIAWN

COMMISSION FOR RACIAL EQUALITY
COMISIWN CYDRADDOLDEB HILIOL

BWRDD YR IAITH GYMRAEG

WELSH LANGUAGE BOARD

COMISIWN CYDRADDOLDEB HILIOL CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Paratowyd dan
Ddeddf yr Iaith Gymraeg, 1993,
5 Rhagfyr 1997

UNO PRYDAIN AM GYMDEITHAS GYFIAWN

COMMISSION FOR RACIAL EQUALITY
COMISIWN CYDRADDOLDEB HILIOL

BWRDD
YR IAITH
GYMRAEG

WELSH
LANGUAGE
BOARD

© Comisiwm Cydraddoldeb Hiliol
Tŷ Elliot
10/12 Heol Allington
Llundain SW1E 5EH

Cyhoeddwyd 1998

ISBN 1 85442 215 4
Pris: £XXX

CYNNWYS

Datganiad 6

Cyflwyno'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru 7

CYNLLUN YR IAITH GYMRAEG

Cynllunio a Chyflwyno Gwasanaethau 9

Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg 11

Wyneb cyhoeddus y Comisiwn yng Nghymru 14

Gweithredu dan Adran 66, Deddf Cysylltiadau Hiliol 18

Rhoi'r Cynllun ar waith a'i fonitro 20

Crynodeb o'r Amcanion 26

DATGANIAD

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol wedi mabwysiadu'r egwyddor o drin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar sail gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Comisiwn yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Bydd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru yn rhoi'r hawl i'r cyhoedd ddewis a ydynt yn dymuno delio gydag ef yn y Gymraeg neu yn Saesneg.

Diffiniadau

Yn y Cynllun hwn, mae'r term 'dwyieithog' yn cyfeirio at yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg.

CYFLWYNO'R COMISIWN CYDRADDOLDEB HILIOL YNG NGHYMRU

Sefydlwyd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CCH) gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976. Ei ddyletswyddau yw gweithio tuag at ddiddymu camwahaniaethu hiliol, hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a chysylltiadau hiliol da, a monitro sut mae'r Ddeddf yn gweithio.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn gweithio o blaid cymdeithas gyfiawn, sy'n rhoi cyfle cyfartal i bawb ddysgu, gweithio a byw yn rhydd rhag unrhyw gamwahaniaethu a rhagfarn, a rhag ofn harasio a thrais hiliol.

Mae'r CCH yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal drwy gyhoeddi codau ymarfer a chanllawiau eraill i gyflogwyr, awdurdodau lleol, cyrff iechyd, hyfforddiant a thai, yr heddlu, ayb. Mae'n cynghori'r Llywodraeth ar faterion hil ac yn cyflwyno sylwadau ar y materion hynny ger ei bron, gan sicrhau bod ASau, y pleidiau gwleidyddol a'r cyfryngau yn meddu ar wybodaeth gyfoes-gywir ynglŷn â materion o'r fath. Bydd y CCH hefyd yn noddi gwobrau i unigolion, mudiadau, awdurdodau lleol a phrosiectau cyfryngol sy'n gwneud cyfraniad nodedig tuag at cyfartaledd hiliol; bydd hefyd yn trefnu ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, er enghraifft, Ciciwn Hiliaeth/Parch i Bob Cefnogwr a'r arddangosfa Roots of the Future (Gwreiddiau'r Dyfodol) sy'n dathlu'r amrywiaeth ethnig a greodd wledydd Prydain.

Mae gweithgarwch y CCH yn berthnasol i gyflogaeth, hyfforddiant, tai, iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, undebau llafur, y system cyfiawnder troseddol, a sut y mae gwasanaethau a nwyddau yn cael eu cynnig i'r cyhoedd. Mae hefyd yn helpu asiantaethau eraill i weithredu ar aflonyddu ac ymosodiadau hiliol.

Gall unrhyw un sy'n credu iddo/i ddioddef camwahaniaethu hiliol yn unrhyw un o'r meysydd sydd dan gochl y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (sy'n cynnwys cyflogaeth, tai, addysg, darparu nwyddau a gwasanaethau) wneud cais i'r CCH am gymorth i ddwyn eu hachos ger bron llys neu dribiwnlys diwydiannol. Gall y CCH helpu achwynwyr un ai yn uniongyrchol neu drwy eu rhoi mewn cysylltiad ag asiantaethau eraill.

Mae gan y CCH hefyd yr awdurdod i gynnal ymchwiliadau ffurfiol i gwmnïau a sefydliadau lle ceir tystiolaeth o gamwahaniaethu. Gall y CCH ddwyn achos cyfreithiol yn erbyn hysbysebion sy'n camwahanaiethu, neu mewn achosion o roi cyfarwyddiadau neu bwysedd i gamwahaniaethu. Os yw'r CCH yn canfod bod camwahaniaethu wedi digwydd, yna gall gymryd camau i sicrhau ei fod yn cael ei derfynu.

Mae gan y Comisiwn saith swyddfa, a'r rheiny wedi eu gwasgaru drwy holl wledydd Prydain: yn Llundain, Caerlyr, Birmingham, Leeds, Manceinion, Caeredin a Chaerdydd. Agorwyd swyddfa Cymru ym mis Gorffennaf 1995, ac fe gyflogir pum aelod o staff yno.

CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETHAU

POLISÏAU A CHYNLLUNIAU NEWYDD

- Wrth gynllunio a ffurfio polisïau a chynlluniau newydd a allai fod yn berthnasol i waith y Comisiwn yng Nghymru, bydd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn asesu eu canlyniadau ieithyddol ac yn ceisio sicrhau y bydd y polisïau a'r cynlluniau newydd hynny, cyn belled ag sy'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn ymarferol o fewn rheswm, yn cydymffurfio â'r ymrwymiadau a roddir yn y Cynllun hwn.
- Bydd polisïau a chynlluniau newydd a ffurfir gan y Comisiwn yng nghyswllt ei waith yng Nghymru:
    - yn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg pa bryd bynnag y bo hynny'n bosibl;
    - yn ymdrechu i symud y Comisiwn yn nes at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb.
- Bydd polisïau a chynlluniau newydd a ffurfir gan y Comisiwn yn cyd-fynd â'r Cynllun hwn ac ni fyddant yn ei danseilio.
- Bydd y Comisiwn yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw ynghylch cynigion a fydd, yn ei farn ef, yn effeithio ar y Cynllun.
- Bydd y Comisiwn yn ceisio cytuno ar unrhyw newidiadau i'w Gynllun gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- Gwneir pob Comisiynydd ac aelod staff sy'n ymwneud â ffurfio polisi yn ymwybodol o'r Cynllun ac o gyfrifoldebau'r Comisiwn dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

CYFLWYNO GWASANAETHAU

- Bwriad pendant y Comisiwn yw cyflwyno gwasanaeth yng Nghymru sydd o'r un safon uchel boed y gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg neu yn Saesneg, trwy:
    - fabwysiadu gweithdrefnau, a ddisgrifir yn fanylach yn yr adrannau dilynol, sy'n hyrwyddo darparu gwasanaeth un ai yn Gymraeg neu yn Saesneg;

- darparu hyfforddiant a chyfarwyddyd i staff i hwyluso'r drefnu o roi'r cynllun ar waith wrth gyflwyno gwasanaethau'r Comisiwn;
- rhestru gwasanaethau cyfieithu effeithiol a phroffesiynol a gwneud trefniadau contractyddol addas i gael cyfieithiadau cyflym a dibynadwy o'r holl ddeunydd perthnasol.

- Fel arfer, y swyddfa yng Nghymru yw'r man cysylltu cyntaf ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru. Os yw rhywun yn cysylltu ag un o'r swyddfeydd eraill, neu os bydd angen i staff mewn rhan wahanol o'r Comisiwn ddelio â mater, byddwn yn ceisio parhau â gwasanaeth dwyieithog.
- Bydd Penaethiaid Adeiniau o fewn y Comisiwn yn gyfrifol am sicrhau bod eu hadeiniau yn cyflwyno'r holl wasanaethau mewn modd sy'n cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn.
- Bydd y Comisiwn yn rhoi cefnogaeth ac anogaeth i Gynghorau Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru sydd am ddarparu unrhyw rai o'u gwasanaethau yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg ac mewn unrhyw ieithoedd eraill sy'n berthnasol i'w gwaith.

SAFON Y GWASANAETH

- Bydd safon y gwasanaeth a ddarperir yn Gymraeg yr un mor uchel â safon y gwasanaeth a ddarperir yn Saesneg. Bydd y Comisiwn yn sicrhau ei fod yn darparu gwasanaeth Cymraeg sy'n gyson o ran safon ar hyd a lled ei weithgareddau.
- Bydd y modd o gyflwyno gwasanaethau yn y ddwy iaith yn cydymffurfio â'r ymrwymiad presennol i safonau fel y'i nodir yn Siarter y Dinesydd. Mae'r Comisiwn wedi cynhyrchu ei ddatganiad Safonau Siarter ei hun, dan y teitl Aiming High for Equality.
- Caiff y safonau a fydd mewn grym o ran y gwasanaeth Cymraeg a'r modd y'u gweithredir ei fonitro'n flynyddol.
- Cynhwysir gwybodaeth i ddangos i ba raddau y mae'r Comisiwn yn cyflawni ei dargedau dan y Cynllun hwn yn yr Adroddiad Blynyddol.

DELIO Â'R CYHOEDD SYDD YN SIARAD CYMRAEG

GOHEBIAETH YSGRIFENEDIG

- Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Byddir yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg gyda'r swyddfa yng Nghymru yr un mor gyflym â gohebiaeth Saesneg, a bydd Safonau Siarter y Comisiwn mewn grym yn yr un modd yng nghyswllt gohebiaeth Gymraeg neu Saesneg.
- Bydd pob ateb o du'r Comisiwn yn iaith y llythyr gwreiddiol.
- Yn Gymraeg y cynhelir pob gohebiaeth yn dilyn cyswllt wyneb-yn-wyneb neu dros y ffôn yn Gymraeg, oni bo'r aelod o'r cyhoedd wedi gofyn yn wahanol.
- Bydd llythyr oddi wrth y Comisiwn at unigolion, grwpiau neu fudiadau y gwyr y Comisiwn eu bod yn gweithio'n bennaf yn Gymraeg, neu fod yn well ganddynt dderbyn llythyrau Cymraeg, yn Gymraeg.
- Bydd y Comisiwn yn datblygu ac yn cynnal cronfa ddata o'r rheiny sy'n dymuno gohebu gyda'r Comisiwn yn Gymraeg.
- Caiff cylchlythyron neu lythyrau safonol i'r cyhoedd yng Nghymru eu cyhoeddi'n ddwyieithog.
- Rhoddir cyfarwyddyd ysgrifenedig ar yr uchod i bob aelod staff.

CYFATHREBU DROS Y FFÔN

- Mae'r Comisiwn yng Nghymru yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Bydd aelodau staff yng Nghymru yn ateb galwadau allanol gyda chyfarchiad dwyieithog. Os nad yw'r aelod staff yn siarad Cymraeg, bydd ef/hi yn egluro hynny'n gwrtais ac yn cynnig tros-glwyddo'r sawl sy'n galw i rywun sy'n siarad Cymraeg.
- Ar unrhyw adeg pan nad oes siaradwr Cymraeg ar gael i ddelio ag ymholiad, rhoddir dewis i'r sawl sy'n galw un ai i barhau â'r alwad yn Saesneg neu bydd siaradwr Cymraeg yn ffonio'n ôl cyn

gynted â phosibl. Rhoddir cynnig hefyd i'r sawl sy'n galw i gyflwyno'i ymholiad ar bapur; os bydd iddynt ysgrifennu'n Gymraeg, byddant yn derbyn ateb Cymraeg.

- Rhoddir cyfarchiad dwyieithog ar beiriannau ateb, yn gwahodd y sawl sy'n galw i adael neges yn y naill iaith neu'r llall.
- Rhoddir cyfarwyddyd ysgrifenedig ar yr uchod i bob aelod staff.

CYFARFODYDD GYDAG AELODAU'R CYHOEDD

- Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn trefnu cyfarfodydd yn rheolaidd gydag amrediad eang o fudiadau a grwpiau, gan gynnwys:
  - cyfarfodydd gyda mudiadau statudol/sector cyhoeddus eraill
  - cyfarfodydd gyda mudiadau sector preifat
  - cyfarfodydd gyda mudiadau gwirfoddol
  - cyfarfodydd gyda grwpiau cymuned, grwpiau defnyddwyr gwasanaeth, ayb.
  - cynadleddau i'r wasg a chyfarfodydd briffio i'r wasg
- Pan fo'r Comisiwn yn trefnu cyfarfod yn ei swyddfa yng Nghymru, croesewir cyfraniadau yn Gymraeg neu yn Saesneg; byddwn yn ceisio sicrhau bod pobl yn ymwybodol o hyn ymlaen llaw, ac yn gofyn iddynt roi gwybod i ni ynglŷn â'u dewis iaith.
- Pan fydd y Comisiwn yn trefnu cyfarfod byddwn yn darparu cyfleusterau cyfieithu-ar-y-pryd i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg.
- Cyhoeddir bod gwasanaeth cyfieithu-ar-y-pryd yn cael ei ddarparu cyn dechrau cyfarfod a bydd offer priodol ar gael.
- Bydd unrhyw gyhoeddusrwydd i'r cyfarfodydd a restrir uchod yn ddwyieithog a bydd yn amlygu natur ddwyieithog y cyfarfod.
- Mae swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru yn croesawu cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb gydag aelodau unigol o'r cyhoedd yn Gymraeg a/neu yn Saesneg.
- Os gwneir cais am hynny, bydd swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru yn ceisio sicrhau bod aelod staff Cymraeg ei iaith ar gael i gwrdd ag aelod o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.

YMDRIN Â'R CYHOEDD FEL ARALL

- Mae'r ymrwymiadau uchod yn sôn am y ffyrdd o gyfathrebu'n uniongyrchol â'r cyhoedd a ddefnyddir gan y Comisiwn ar hyn o bryd. Seilir unrhyw gynlluniau i'r dyfodol ar yr egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol a nodir uchod.

WYNEB CYHOEDDUS Y COMISIWN YNG NGHYMRU

DELWEDD GORFFORAETHOL YNG NGHYMRU

- Bydd y Comisiwn yn mabwysiadu delwedd gorfforaethol gwbl ddwyieithog yng Nghymru.
- Bydd pob papur pennawd swyddogol, slip cyfarch, wyneb-ddalen ffacs, pennawd datganiadau i'r wasg a cherdyn busnes a ddefnyddir gan swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru yn ddwyieithog.
- Caiff datganiad cenhadaeth corfforaethol y Comisiwn ei gyhoeddi'n ddwyieithog
- Bydd y logo yn cynnwys enw'r Comisiwn yn Gymraeg a Saesneg.
- Bydd stoc o bapur pennawd dwyieithog hefyd yn cael eu cadw ym mhob swyddfa er mwyn cysylltu â phobl yng Nghymru.
- Bydd arwyddion mewnol mewn rhannau cyhoeddus o swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru yn ddwyieithog, yn ogystal ag unrhyw arwyddion allanol ar gyfer ei swyddfa yng Nghymru yn y dyfodol.

DEUNYDD CYHOEDDEDIG AC ARGRAFFEDIG

- Ers ei sefydlu, mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi llawer o gyhoeddiadau i'w defnyddio ledled Prydain. Ymysg y rhain mae:

  i. Canllawiau ar y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol a'r modd o'i rhoi ar waith;

  ii. Codau ymarfer;

  iii. Canllawiau ar ddileu camwahaniaethu hiliol a hyrwyddo cyfle cyfartal mewn meysydd gweithgaredd arbennig, er enghraifft cyflogaeth, addysg, gwasanaethau iechyd, ayb;

  iv. Gwybodaeth ac adroddiadau ynghylch gwaith y Comisiwn;

  v. Adroddiadau, gan gynnwys data ystadegol, sy'n deillio o ymchwil;

  vi. Adroddiadau manwl am ymchwiliadau ffurfiol gan y Comisiwn i sefydliadau, mudiadau, cyflogwyr ayb penodol.

- Caiff holl gyhoeddiadau newydd a diwygiedig y Comisiwn eu hasesu i benderfynu a fyddai'n briodol dan yr amgylchiadau ac yn ymarferol o fewn rheswm i'w cyhoeddi'n ddwyieithog yn eu cyfanrwydd. Bydd y swyddfa yng Nghymru yn ymwneud â'r asesiad hwn. Lle na thybir ei bod yn briodol nac yn ymarferol o fewn rheswm i gyhoeddi cyhoeddiad cwbl ddwyieithog, byddir yn ystyried a ddylid cyhoeddi detholiad neu grynodeb yn Gymraeg.
- Fel canllaw cyffredinol, byddwn yn ceisio cyhoeddi pob cyhoeddiad newydd o fewn (i), (ii) ac (iii) uchod yn ddwyieithog, neu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Lle bo hynny'n briodol ac yn ymarferol o fewn rheswm, byddwn yn cyhoeddi pob cyhoeddiad o fewn (iv) ac (v) uchod, neu rannau ohonynt, neu grynodeb ohonynt, yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg. Caiff cyhoeddiadau o fewn (vi) a chyhoeddiadau arbenigol eraill, sy'n gyfyng iawn eu diddordeb fel arfer, eu hasesu yn yr un ffordd, ond ni chânt eu cyhoeddi yn Saesneg ac yn Gymraeg ond lle bo mater yn wirioneddol debygol o fod o ddiddordeb i gyfran sylweddol o'r cyhoedd yng Nghymru y gwyddys fod yn well ganddynt gyfathrebu'n Gymraeg.
- Nod y Comisiwn yw cyhoeddi ac argraffu cyhoeddiadau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog, gan ffafrio fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen. Os cyhoeddir nhw ar wahân oherwydd maint y ddogfen neu ystyriaethau eraill, caiff y ddau fersiwn eu dosbarthu gyda'i gilydd o swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru a byddant o fewn cyrraedd yr un mor hawdd.
- Yn ogystal â'r ymrwymiadau hyn o ran ein cyhoeddiadau newydd, byddwn yn ystyried a fyddai'n briodol ac yn ymarferol o fewn rheswm paratoi fersiynau dwyieithog o rai o'n cyhoeddiadau presennol.
- Nod y Comisiwn fydd cyhoeddi fersiynau dwyieithog ar yr un pryd ag y cyhoeddir yn Saesneg. Os nad yw hyn yn bosibl, caiff fersiwn dwyieithog neu Gymraeg ei gyhoeddi o fewn mis. Dan amgylchiadau eithriadol, gellir ymestyn hyn i chwe wythnos.
- Lle'r ydym yn codi tâl am gyhoeddiad dwyieithog, ni fydd y pris yn fwy na'r pris am fersiwn uniaith o'r cyhoeddiad hwnnw. Os oes yna gyhoeddiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd pris y ddau gyhoeddiad yr un fath.
- Caiff y gwaith o gyfieithu'r holl ddeunyddiau a gyhoeddir ac a argreffir gan y Comisiwn ei wneud gan gyfieithwyr proffesiynol allanol. Bydd staff Cymraeg eu hiaith oddi mewn i'r Comisiwn yn darllen proflenni cyfieithiadau o'r fath.

- Ynghyd ag Adroddiad Blynyddol y Comisiwn ceir atodiad dwyieithog ar waith y Comisiwn yng Nghymru. Dosberthir yr atodiad hwn gan y swyddfa yng Nghymru gyda'r holl gopïau o'r Adroddiad Blynyddol y mae'n eu hanfon allan.
- Rhoddir ffontiau Cymraeg ar yr holl gyfrifiaduron yn swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru.
- Rhoddir canllawiau ysgrifenedig am gyhoeddiadau dwyieithog i'r holl staff sy'n gyfrifol am gynllunio a chyhoeddi cyhoeddiadau'r Comisiwn.
- Rhoddir canllawiau ysgrifenedig am y gweithdrefnau uchod i bob aelod staff.

FFURFLENNI

- Bydd ffurflenni dwyieithog a deunydd esboniadol ar gael o'r swyddfa yng Nghymru. Lle'r argreffir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân bydd y ddau fersiwn ar gael yr un mor hawdd ac fe'u dosberthir gyda'i gilydd. Bydd y fersiwn yn y naill iaith a'r llall yn nodi bod y ffurflen hefyd ar gael yn yr iaith arall.
- Ceir mwy o wybodaeth am ffurflenni a deunyddiau esboniadol yn yr adran sy'n dwyn y teitl 'Rhoi swyddogaethau'r Comisiwn dan Adran 66, Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 ar waith'.

DATGANIADAU I'R WASG

- Caiff pob datganiad i'r wasg a datganiad newydd gan y Comisiwn yng Nghymru ei gyhoeddi'n ddwyieithog gyda pherson cyswllt Cymraeg ei iaith.
- Caiff unrhyw ddatganiad perthnasol i Gymru a baratoir gan Swyddfa'r Wasg y Comisiwn yn Llundain ei gyhoeddi yn ddwyieithog yng Nghymru gyda pherson cyswllt Cymraeg ei iaith.
- Hyd yn oed os yw'r mater yn un brys, bydd y Comisiwn yn ymdrechu i sicrhau bod datganiadau i'r wasg a datganiadau newyddion a baratoir gan Swyddfa'r Wasg yn Llundain yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog yng Nghymru.
- Bydd y Comisiwn yn sicrhau bod person cyswllt Cymraeg ei iaith ar gael ym mhob cynhadledd i'r wasg a chynhadledd newyddion yng Nghymru.

Y RHYNGRWYD

- Bydd y Comisiwn yn darparu tudalen ddwyieithog am ei waith yng Nghymru ar ei safle ar y Rhyngrwyd.

GWEITHGAREDD HYSBYSEBU A CHYHOEDDUSRWYDD YNG NGHYMRU

- Cyflawnir gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd y Comisiwn yng Nghymru yn ddwyieithog, gan drin y ddwy iaith yn gyfartal.
- Gydag unrhyw arolwg cyhoeddus a gynhelir gan y Comisiwn un ai'n rhannol neu'n gyfangwbl yng Nghymru, ar batrwm ffurflenni ymateb ysgrifenedig, caiff y ffurflenni, ac unrhyw ganllawiau perthnasol, eu cyhoeddi'n ddwyieithog.
- Bydd arddangosfeydd a stondinau arddangos cyhoeddus a baratoir gan y Comisiwn yng Nghymru yn cynnwys deunydd dwyieithog.
- Bydd yr holl faneri o eiddo'r Comisiwn a ddefnyddir yng Nghymru un ai'n ddwyieithog neu mewn Cymraeg a Saesneg, gyda gorchymyn fod y ddwy faner i'w defnyddio gyda'i gilydd.

HYSBYSIADAU SWYDDOGOL, HYSBYSIADAU CYHOEDDUS A HYSBYSEBION RECRIWTIO STAFF YNG NGHYMRU

- Mae'r Comisiwn yn rhedeg hysbysebion papur newydd i roi cyhoeddusrwydd i ymgyrchoedd, i dynnu sylw at ddigwyddiadau ac i recriwtio staff.
- Bydd hysbysiadau cyhoeddus yn y wasg yng Nghymru yn y ddwy iaith gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu dangos gyda'i gilydd, a chan roi'r un amlygrwydd iddynt.
- Bydd pob hysbyseb recriwtio am staff i weithio yn swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru yn ddwyieithog.
- Bydd hysbysebion am swyddi y mae'r Gymraeg yn hanfodol ar eu cyfer yn cynnwys datganiad esboniadol yn y ddwy iaith.

GWEITHREDU DAN ADRAN 66, DEDDF CYSYLLTIADAU HILIOL 1976

Dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976 gall unrhyw berson sy'n credu ei fod wedi dioddef camwahaniaethu yn ei erbyn ar seiliau hiliol droi at y Comisiwn am gyngor a chymorth, ac mae gan y Comisiwn ddyletswydd i ystyried pob cais o'r fath. Mae ffurflen gais safonol y Comisiwn am gymorth, ynghyd â chyfarwyddiadau a nodiadau esboniadol, ar gael mewn fersiwn dwyieithog.

- Cyhoeddir pob ffurflen ac unrhyw ddeunydd esboniadol ynghylch sut i wneud cwyn ar seiliau hiliol dan Adran 66 y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol yn ddwyieithog, a dylai'r Gymraeg a'r Saesneg ymddangos ar un ffurflen lle bo hynny'n bosib.
- Mae'r Comisiwn yn croesawu cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb gydag achwynwyr unigol mewn Cymraeg a Saesneg.
- Os gofynnir am hynny, bydd swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru yn ceisio sicrhau bod aelod staff Cymraeg ei iaith ar gael i gymryd rhan mewn cyfweliad gydag achwynydd unigol sy'n siarad Cymraeg.
- Os bydd achwynydd yn ysgrifennu at y Comisiwn yn Gymraeg, bydd ef/hi yn derbyn ateb Cymraeg wedi ei lofnodi.
- Yn Gymraeg y cynhelir pob gohebiaeth gydag achwynydd unigol yn dilyn sgwrs wyneb-yn-wyneb neu dros y ffôn yn Gymraeg, oni bo ef/hi yn gofyn yn wahanol.
- Mewn unrhyw achos lle mae'r Comisiwn wedi cytuno i ddarparu cynrychiolaeth gyfreithiol i'r achwynydd a bod yr achwynydd wedi gofyn yn benodol am i unrhyw Gwnsler a gyfarwyddir i'w gynrychioli mewn tribiwnlys diwydiannol neu lys allu siarad Cymraeg, bydd y Comisiwn yn ceisio cydymffurfio â'r cais hwn cyhyd â'i fod yn fodlon, o ystyried yr holl amgylchiadau, na fyddai gweithredu felly yn peri anfantais o ran cynnal achos yr achwynydd yn briodol.

- Nid yw'r Comisiwn yn uniongyrchol gyfrifol am gyhoeddi'r ffurflenni a'r dogfennau swyddogol a ddefnyddir, er enghraifft gan y tribiwnlys diwydiannol neu'r llys sirol, y mae'n rhaid eu cwblhau gan unigolion sydd am fynd ar drywydd cwyn ar seiliau hiliol. Fodd bynnag, bydd y Comisiwn yn ymdrechu i'r eithaf i annog yr Adrannau perthnasol o'r Llywodraeth i gyhoeddi ffurflenni neu ddogfennau sy'n berthnasol i achosion cyfreithiol dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976 yn Gymraeg a Saesneg. Fe wneith y Comisiwn rhoi gwybod iddynt pa iaith sydd orau gan yr achwynydd.

RHOI'R CYNLLUN AR WAITH A'I FONITRO

STAFFIO

- Bydd gan swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru nifer ddigonol o siaradwyr Cymraeg, gyda sgiliau priodol, i sicrhau ei bod yn bosibl darparu gwasanaeth llawn trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynhaliwyd arolwg ar bob swydd yn y swyddfa yng Nghymru a gwnaed penderfyniad ynghylch y gallu ieithyddol sy'n ofynnol i bob swydd. Lle ceir swydd wag barhaol neu dros dro y mae angen recriwtio iddi, caiff y gofynion ieithyddol ar gyfer y swydd eu hailasesu, a hysbysebir y swydd yn unol â hynny.
- Nodir unrhyw ostyngiad yn y nifer o staff dwyieithog mewn swyddi y mae'r Cynllun yn berthnasol iddynt, a nod y Comisiwn fydd unioni unrhyw ddiffygion fel a phan y bydd y cyfle'n codi, er enghraifft trwy recriwtio a thrwy ddarparu hyfforddiant i staff i ddysgu Cymraeg.
- Rhoddir cyfarwyddyd ar yr uchod i reolwyr ac eraill sy'n gyfrifol am recriwtio, hyfforddi ac adolygiadau staff.

DYSGU CYMRAEG

- Mae'r Comisiwn yn annog ac yn cefnogi staff sy'n gweithio yng Nghymru ac sy'n dymuno dysgu Cymraeg, ac mae'n cefnogi staff Cymraeg eu hiaith sydd am wella eu sgiliau ieithyddol.
- Anogir aelodau staff yng Nghymru i fynychu cyrsiau priodol gyda'r nod o wella eu Cymraeg.
- Bydd Adran Hyfforddi'r Comisiwn yn cysylltu'n agos â'r swyddfa yng Nghymru ynghylch cyrsiau priodol.
- Lle bo aelodau staff Cymraeg eu hiaith yn gwybod bod staff eraill yn dysgu Cymraeg, byddant yn eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- Bydd y Comisiwn yn darparu copïau o CySill, y rhaglen i gywiro sillafu yn y Gymraeg, i aelodau staff sydd am weithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

- Bydd y Comisiwn yn darparu copïau o Eiriadur Saesneg-Cymraeg yr Academi a'r Geiriadur Mawr i aelodau staff sydd am weithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

RECRIWTIO

- Lle bo hyfedredd yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer swydd, nodir y ffaith hon ac ar ba lefel y mae'n rhaid gallu siarad a darllen yr iaith wrth recriwtio i'r swydd honno.
- Pe byddai rhaid penodi person di-Gymraeg i swydd lle'r ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, bydd dysgu'r iaith hyd at y lefel ofynnol o fewn cyfnod rhesymol o amser, gyda chefnogaeth y Comisiwn, yn amod cyflogi. Rhoddir gwybod i ymgeiswyr am yr amod hwn wrth recriwtio.
- Bydd y Comisiwn yng Nghymru yn annog ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg am unrhyw swyddi gweigion trwy :
    - sicrhau bod pob hysbyseb recriwtio yn ymddangos yn ddwyieithog ystyried gosod hysbysebion recriwtio ychwanegol mewn papurau newydd neu gylchgronau Cymraeg, hyd yn oed lle nad yw'r gallu i siarad Cymraeg yn ofyniad hanfodol
    - sicrhau bod swyddi perthnasol yn cael eu hysbysebu mewn Canolfannau Gwaith ac asiantaethau recriwtio eraill ar hyd a lled Cymru.

HYFFORDDIANT GALWEDIGAETHOL

- Bydd y Comisiwn yn asesu'r angen am hyfforddiant penodol mewn sgiliau cyfathrebu a phrosesu geiriau yn yr iaith Gymraeg ar gyfer staff sy'n gweithio yn swyddfa Cymru.
- Anogir aelodau staff Cymraeg eu hiaith i ddefnyddio'r Gymraeg tra'n cymryd rhan mewn seminarau a chyrsiau Cymraeg.

TREFNIADAU GWEINYDDOL

- Mae'r Comisiwn yn llwyr gefnogi, yn awdurdodi ac yn cymeradwyo'r Cynllun hwn a bydd yn rhoi awdurdod llawn i'r Cynllun tra caiff ei weithredu.

- Rhoddwyd copiau o'r Cynllun drafft i holl staff y Comisiwn pan gyhoeddwyd ef i'r diben o ymgynghori a'r cyhoedd, ynghyd a nodiadau o arweiniad i egluro ei bwysigrwydd a'i berthnasedd.
- Cymeradwywyd yr ymrwymiadau a'r trefniadau a amlinellwyd yn y Cynllun hwn gan y Comisiwn, ac mae'r Comisiynwyr yn eu llwyr gefnogi ac yn awdurdodi eu rhoi ar waith.
- Bydd Adran Hyfforddi'r Comisiwn, ar y cyd â'r swyddfa yng Nghymru, yn cynnal seminarau i hysbysu staff am eu cyfrifoldebau o fewn y Cynllun.
- Defnyddir cylchlythyr staff mewnol y Comisiwn i hysbysu'r staff am unrhyw newidiadau i agweddau o'r Cynllun.
- Bydd pob aelod staff newydd yn derbyn canllawiau manwl ynghylch y Cynllun fel rhan o'u Pecyn Croesawu. Tynnir y Cynllun i'w sylw hefyd fel rhan o'u rhaglen hyfforddiant cynefino.
- Bydd y Comisiwn yn rhestru gwasanaethau cyfieithu proffesiynol effeithiol yng Nghymru, a bydd yn trefnu contract gyda hwy, fel y gellir cael deunydd wedi ei gyfieithu'n gyflym ac yn gywir.

CYTUNDEBAU A THREFNIADAU A WNEIR GYDA THRYDYDD PARTI

- Bydd y Comisiwn yn sicrhau bod unrhyw wasanaethau newydd neu bresennol i'r cyhoedd yng Nghymru, a roddir allan ar gontract neu a brofir yn y farchnad, yn cynnwys darpariaethau yn eu cytundebau neu drefniadau sy'n cyd-fynd â thelerau Cynllun y Comisiwn. Caiff trefniadau monitro eu hymgorffori, a gallant fod yn rhan o broses y Comisiwn ei hun o adrodd ar fonitro.
- Bydd mudiadau a sefydliadau sydd yn dymuno arddangos deunyddiau gyda'r Comisiwn yng Nghymru'n cael eu hannog i ddarparu deunyddiau dwyieithog.
- Wrth gynghori sefydliadau a mudiadau sydd yn cynnig gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru ynglŷn â hybu cyfleoedd cyfartal, bydd y Comisiwn yn ymwybodol o oblygiadau Deddf yr Iaith Gymraeg

CWYNION

- Bydd unrhyw gyhoeddusrwydd ynghylch y Cynllun yn datgan at bwy y dylid gwneud cwynion ynglŷn â'r modd y rhoddir y Cynllun ar waith.

- Bydd y targed o ran yr amser a gymerir i glirio cwynion ynghylch gwasanaeth iaith Gymraeg y Comisiwn yr un fath ag i bob cwyn arall.
- Cydnabyddir pob cwyn a dderbynnir yn ysgrifenedig.

MONITRO

- Caiff y modd o weithredu'r Cynllun ei fonitro.
- Cynhwysir yr agweddau a ganlyn yn y broses fonitro:
- **Blaen gynllunio a chaffael:**
  - sicrhau y bydd polisïau neu weithdrefnau newydd, a chyhoeddiadau a rhaglenni cyfrifiadurol newydd yn cyd-fynd ag ymrwymiadau'r Cynllun i gyflwyno gwasanaethau dwyieithog ar sail cydraddoldeb
- **Trefnu a chyflwyno gwasanaethau:**
  - gweithredu'r trefniadau a wnaed i gyflwyno gwasanaethau'r sefydliad yn Gymraeg, ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny
- **Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru:**
  - amserau ymateb i ohebiaeth Gymraeg;
  - gweithredu'r mesurau ynghylch cyfathrebu dros y ffôn;
  - ansawdd y gwasanaethau cyfieithu-ar-y-pryd a faint o bobl sy'n eu defnyddio;
  - y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd.
- **Wyneb cyhoeddus y Comisiwn yng Nghymru:**
  - rhoi'r ddelwedd gorfforaethol ar waith;
  - cyflwyno cyhoeddiadau, ffurflenni, hysbysiadau a deunyddiau argraffedig eraill dwyieithog.
- **Staffio:**
  - rhoi'r mesurau staffio a hyfforddi a nodir yn y Cynllun hwn ar waith.
- **Asiantau a chontractwyr:**
  - monitro darpariaeth a gweinyddiaeth gwasanaethau a gyflenwir gan asiantau a chontractwyr y Comisiwn i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r telerau ynghylch yr iaith Gymraeg yn eu cytundebau neu eu trefniadau.

- **Amserlen:**
  - monitro cyflawniad yn erbyn yr amserlen yn y Cynllun.
- **Cwynion:**
  - monitro cyflawniad a natur cwynion ynghylch gwasanaeth cyfrwng Cymraeg y sefydliad. Cynhwysir hyn fel rhan o drefn gwyno gyfredol y Comisiwn.
- Yr Uwch Gyfarwyddwr Weithredol fydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am fonitro ac adolygu'r Cynllun a bydd yn sicrhau bod yr holl fonitro yn weithgaredd strwythuredig a pharhaus a'i fod yn cynnwys y rheiny sy'n darparu neu'n gweinyddu gwasanaethau ar ran y Comisiwn. Bydd y swyddog penodedig yn swyddfa'r Comisiwn yng Nghaerdydd yn gyfrifol am fonitro ac adolygu'r Cynllun o ddydd i ddydd.
- Bydd y Comisiwn yn croesawu awgrymiadau am sut i wella unrhyw agwedd o'i Gynllun Iaith Gymraeg. Dylid anfon awgrymiadau at swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru. Rhoddir cydnabyddiaeth ysgrifenedig i bob awgrym a dderbynnir.
- Bydd y Comisiwn yn darparu adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar ffurf a gymeradwywyd gan y Bwrdd. Bydd yr adroddiad blynyddol hwn yn sôn am gynnydd o ran gweithredu'r mesurau yn y Cynllun ochr yn ochr â'r amserlen a'r safonau a gymeradwywyd, a bydd yn dadansoddi nifer a natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau ynghylch sut i wella.

TARGEDAU

- Rhoddir y Cynllun ar waith yn unol â'r amserlen a ddarparwyd.

CYHOEDDI GWYBODAETH

- Cyhoeddir adroddiadau am y modd y rhoddir y Cynllun ar waith yn Adroddiad Blynyddol y Comisiwn, a byddant ar gael hefyd o swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru trwy wneud cais. Bydd yr adroddiadau hyn yn ymdrin â'r:
  - canran o ymatebion i ohebiaeth Gymraeg a gyflawnwyd o fewn y targedau amser a'r amserlen a bennwyd;
  - canran o holl ddatganiadau'r wasg y CCH a gyhoeddwyd yn ddwyieithog yng Nghymru;
  - canran o holl gyhoeddiadau'r CCH a gynhyrchwyd yn ddwyieithog yng Nghymru

- canran o geisiadau Cymraeg am gymorth a broseswyd o fewn yr amser penodedig
- y nifer o siaradwyr Cymraeg yn y swyddfa yng Nghymru, o gymharu â'r nifer targed a bennwyd;
- esboniadau am unrhyw fethiant i gyflawni targedau, a disgrifiad o'r camau a gymerwyd i unioni'r sefyllfa.

CYHOEDDUSRWYDD

- Caiff Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn ei gyhoeddi i ddechrau ac ar sail barhaol fel a ganlyn:
  - mewn hysbysebion mewn papurau newydd;
  - mewn taflenni a anfonir at fudiadau ac unigolion ar hyd a lled Cymru.
- Bydd copïau o'r rhain ar gael o swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru trwy wneud cais.
- Bydd pob asiantaeth sy'n cyflwyno gwasanaethau ar y cyd â'r Comisiwn neu ar ei ran yn derbyn copïau o'r Cynllun.

CYSWLLT

Am fwy o wybodaeth am y Cynllun Iaith Gymraeg hwn, cysylltwch â

Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
14eg Llawr
Tŵr y Ddinas
Ffordd y Brodyr Llwydion
CAERDYDD CF1 3AG
Ffôn: 01222 388977

CRYNODEB O'R AMCANION

NOD	DYDDIAD GWEITHREDU
Polisïau a Chynlluniau Newydd	Dyddiad Targed - Mawrth 1998
Gohebiaeth	**Arfer cyfredol**
Ateb y ffôn yn ddwyieithog	Ar y gweill. Dyddiad targed - Mehefin 1997
Cyfieithu mewn cyfarfodydd	Dyddiad targed - Mawrth 1999
Papur swyddogol dwyieithog	**Arfer cyfredol**
Arwyddion dwyieithog yn swyddfa Cymru	**Arfer cyfredol**
Cyhoeddiadau	Ar y gweill. Dyddiad Targed - Mawrth 1998
Taflenni	Ar y gweill. Dyddiad targed - Mawrth 1998
Posteri	Ar y gweill. Dyddiad targed - Mawrth 1998
Tudalennau'r Rhyngrwyd	Dyddiad targed - Mawrth 1998
Arolygon Cyhoeddus	**Arfer cyfredol**
Datganiadau i'r Wasg	**Arfer cyfredol**
Deunydd Arddangosfeydd	Ar y gweill. Dyddiad targed - Mawrth 1998
Hysbysebion Recriwtio Staff	**Arfer cyfredol**
Adolygu swyddi Cymraeg eu hiaith	**Wedi'i wneud cyn agor swyddfa Cymru, 1995, ac i'w wneud cyn pob penodiad yn y dyfodol.**
Dysgu Cymraeg	Ar y gweill. Dyddiad Targed - Mawrth 1998
Recriwtio	Dyddiad targed - Mehefin 1997
Hyfforddiant Galwedigaethol	Dyddiad targed - Mehefin 1997
Cyfarwyddiadau a Chanllawiau	Dyddiad targed - Mehefin 1997
Cytundebau a Threfniadau a wneir gyda Thrydydd Parti	Dyddiad targed - Mawrth 1998
Monitro	Tachwedd 1997
Targedau	Tachwedd1997
Cyhoeddi Gwybodaeth	Mehefin 1998, ac yn flynyddol wedyn
Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun	Tachwedd1997